OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2453 (Cy.237)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*24 Medi 2003*
Yn dod i rym - -	*26 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1), (2), a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 (**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 26 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Cofrestr" ("*Register*") yw'r gofrestr ddisgyblion a gedwir o dan adran 434 o Ddeddf 1996 ac yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995(**3**);

ystyr "cyfeirnod gweithgaredd dysgu" ("*learning activity reference*") yw cyfuniad o rifau sydd ynghyd â llythyren yn cael eu dyrannu i gwrs astudiaeth neu weithgaredd dysgu arall ac sy'n benodol i'r cwrs hwnnw neu'r gweithgaredd dysgu hwnnw, ac a benderfynwyd gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;

ystyr "Deddf 1996 ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "disgybl chweched dosbarth" ("*sixth form pupil*") yw disgybl y caiff Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant dalu grant mewn perthynas â'i addysg i'r awdurdod addysg lleol o dan adran 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**4**);

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan Ddeddf Addysg 1997 (1997 p.44), adran 20, ac fe'i disodlwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (1998 p.31), adran 140(1) ac Atodlen 30, paragraffau 57 a 153.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Am ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1) o Ddeddf 1996.
(**3**) O.S. 1995/2089.
(**4**) 2000 p.21.

ystyr "rhif unigryw disgybl" ("*unique pupil number*") yw cyfuniad o rifau sydd ynghyd â llythyren neu lythrennau yn cael eu dyrannu i ddisgybl ac sy'n benodol i'r disgybl hwnnw, drwy ddefnyddio fformiwla a benderfynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol yn darparu gwybodaeth i'w hawdurdodau addysg lleol

3. O fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl cael cais ysgrifenedig oddi wrth yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu i'r awdurdod unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac y gofynnir amdani o ran bob disgybl chweched dosbarth sydd ar y Gofrestr ar y dyddiad y gyfeirir ato yn y cais.

Personau Rhagnodedig

4. At ddibenion adran 537A(4) o'r Ddeddf 1996 rhagnodir Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn berson y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu unrhyw wybodaeth am ddisgyblion unigol iddo.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

D.Elis-Thomas
24 Medi 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.